20 Mehefin 2022

Anfonwyd drwy e-bost at Fforwm Penaethiaid a Rhwydwaith Cwricwlwm ac Ansawdd ColegauCymru

Annwyl Gydweithwyr

Diweddariad ar Gymwysterau Galwedigaethol Ôl-16 – Haf 2022

Wrth i chi baratoi ar gyfer diwedd tymor y coleg, roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol crynhoi rhywfaint o'n gweithgarwch diweddar ac arfaethedig mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol ôl-16 fel y gallwch rannu'r wybodaeth hon gyda chydweithwyr mewn colegau.

Rydw i'n gwybod ei bod hi wedi bod yn flwyddyn brysur a heriol i chi, gyda chymhlethdodau ceisio dychwelyd i'r 'normal newydd' tra'n cyflwyno ac yn darparu nifer o gymwysterau newydd, gwahanol iawn, mewn meysydd rhaglenni mawr. Gan gofio hyn, rydym ni'n ddiolchgar iawn am yr amser y mae llawer ohonoch chi wedi'i gymryd i ymgysylltu â ni i drafod heriau a nodi datrysiadau. Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu'n agos â chi ac rydym ni'n diolch i chi am eich amser a'ch adborth adeiladol.

Amlinellaf isod rai o'r meysydd gwaith allweddol sy'n uchel ar eich agendâu i gasglu gwybodaeth sydd wedi'i rhannu dros yr wythnosau diwethaf.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rydych chi wedi mynegi nifer o bryderon i ni am gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mewn perthynas â dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol. Yn benodol, gwnaethoch chi dynnu ein sylw at bryderon am ganlyniadau arholiadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 (Unedau 2 a 5) fis Ionawr. Rydym ni wedi

ymchwilio i'ch pryderon ac wedi codi nifer o faterion gyda CBAC. O ganlyniad, mae nifer o gamau wedi'u cymryd erbyn hyn, er budd dysgwyr, sy'n cynnwys:

- mae CBAC wedi diystyru cwestiwn 3 marc yn Uned 2 nad oedd yn amlwg yn berthnasol i'r fanyleb
- dilëwyd cwestiwn tebyg o Uned 2 yn arholiad Mehefin
- mae canlyniadau uned yn cael eu haddasu i roi mwy o bwyslais ar gyfraniad yr asesiad di-arholiad (NEA) i'r radd gyffredinol.

Rydym ni hefyd yn ddiolchgar i arweinwyr Cwricwlwm ac Ansawdd a'u huwch arweinwyr pwnc am ymgysylltu â ni ar ein Hadolygiad Cyflym. Rydym ni bellach wedi cyhoeddi ein hadroddiad ac yn gweithio gyda chonsortiwm y corff dyfarnu i weithredu'r argymhellion sy'n deillio o'n canfyddiadau.

Mae rhai o'r camau allweddol mewn perthynas â'r **Cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3** yn cynnwys:

- Mae CBAC yn gweithio gyda chanolfannau i gyd-lunio **Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.** Caiff hwn ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2024, gan alluogi dysgwyr sy'n dechrau ar eu cwrs dwy flynedd ym mis Medi i'w ddilyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r cymhwyster hwn gyda'r nod o sicrhau bod gan bob dysgwr raglen ddysgu sydd wedi'i strwythuro'n briodol: gall hyn gynnwys creu cymhwyster 540 awr ddysgu dan arweiniad (GLH) i'w ddilyn mewn blwyddyn. Mae CBAC yn parhau i weithio'n agos gyda chanolfannau ar y gwaith pwysig hwn.
- Ochr yn ochr â datblygu'r Diploma Estynedig bydd CBAC yn **adolygu** dyfnder a maint **cynnwys** y dystysgrif Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 (360GLH) a'r Diploma (720GLH) – unwaith eto, bydd hyn yn effeithio ar ddysgwyr sy'n dechrau ar eu cwrs ym mis Medi.
- Bydd CBAC yn rhyddhau **deunydd ysgogi ar gyfer unedau 1 a 4** ym mis Medi - llawer cynt nag mewn blynyddoedd blaenorol.
- Mae CBAC wedi **dileu'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol** ar gyfer rhai tasgau asesu yn unedau 1, 3 a 6, gan ddarparu llawer mwy o hyblygrwydd i ganolfannau a dysgwyr.
- Bydd CBAC nawr yn caniatáu i ddysgwyr **ailsefyll arholiad allanol ddwywaith**, yn hytrach na dim ond unwaith.

Mae nifer o argymhellion eraill yn yr adroddiad sy'n cael eu datblygu a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi amdanynt yn unol â hynny.

Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu

Mae llawer ohonoch chi newydd gwblhau'r flwyddyn gyntaf o gyflwyno'r cymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (CBE) newydd a luniwyd ar gyfer Cymru – yn enwedig y cymhwyster Sylfaen ac, mewn rhai achosion, y cymwysterau Dilyniant. Mae rhai ohonoch wedi dweud wrthym fod y cymwysterau wedi cael derbyniad da iawn, ac mae gan eraill rai pryderon. Er enghraifft, fe'n hysbyswyd bod rhai colegau'n wynebu heriau hylawrwydd o ran y profion ymarferol a bod rhai pryderon ynghylch hygyrchedd rhai o'r profion ar-sgrin. Rydym hefyd yn ymwybodol bod gan rai colegau bryderon am lwybrau dilyniant. Hoffem ddeall yn union sut mae'r cymwysterau'n gweithio ym mhob Coleg a chlywed am yr heriau penodol rydych chi'n eu hwynebu fel y gallwn ni fynd i'r afael â materion yn y flwyddyn i ddod.

I'r perwyl hwnnw, byddwn yn ailadrodd dull cyfweliad yr Adolygiad Cyflym ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth i ni gynnal **gwiriad iechyd ar y cymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (CBE)**. Byddwn yn cysylltu ag aelodau Cwricwlwm ac Ansawdd i drefnu cyfweliadau yn gynnar y tymor nesaf ac rydym ni'n edrych ymlaen at gwrdd â chi a'ch uwch arweinwyr pwnc i glywed am eich profiadau yn eich coleg. Yn y cyfamser, mae dau ddigwyddiad wedi'u cynnal/yn cael eu cynnal yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro i baratoi ar gyfer y cymwysterau prentisiaeth lefel 3 newydd (a gynhaliwyd ar 16 Mehefin) ac i glywed am enghreifftiau o arfer da a rhannu profiadau o'r cymwysterau Sylfaen a Dilyniant (23 Mehefin).

Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo

Rydym ni'n datblygu ein cynigion ar gyfer diwygio posibl wrth i ni baratoi i adrodd ar ein hadolygiad o'r sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo. Hoffem roi ein ffordd o feddwl ar brawf gyda chi a'ch cydweithwyr fel bod unrhyw gynigion wedi'u gwirio gyda'r colegau, ac wedi'u dylanwadu gan golegau – cyn ymgynghoriad ffurfiol. I'r perwyl hwn, bydd Lisa Mitchell, y Rheolwr Cymwysterau sy'n arwain ar yr adolygiad, yn cynnal cyfres arall o **gyfweliadau gyda chynrychiolwyr y Cwricwlwm ac Ansawdd a'r arweinwyr pwnc perthnasol** i brofi ein barn. Rydw i'n gwybod ein bod ni'n rhoi llawer o bwysau ar eich amser, ond rwy'n gobeithio y byddwch yn meddwl ei bod yn ddefnyddiol ac yn bwysig cymryd rhan yn y trafodaethau hynny a fydd yn llywio cyfeiriad cymwysterau yn y sector hwn yn y dyfodol.

Sgiliau Hanfodol

Rydym ni'n cynnal adolygiad o gymwysterau Sgiliau Hanfodol (Cymru), gan ddechrau gydag adolygiad technegol o'r cymwysterau Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif ar lefelau 1 a 2. Byddwn ni'n ymgysylltu â chi yn **gynnar yn 2023** i gasglu eich barn ar y cymwysterau hyn.

Effaith newidiadau i bolisi cymwysterau ('dadariannu') yn Lloegr

Byddwch chi'n ymwybodol, wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno'r cymwysterau lefel T yn Lloegr, eu bod yn 'dadariannu' nifer o gymwysterau lefel 3 yn Lloegr. Mae llawer ohonoch wedi mynegi pryderon am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar argaeledd cymwysterau lefel 3 yng Nghymru. Fe wnaethom ni ysgrifennu atoch yn ddiweddar i roi sicrwydd y byddwn ni'n gweithio gyda chyrff dyfarnu i sicrhau parhad yn y cymwysterau a gynigir yng Nghymru.

Cyhoeddwyd y rhestr gyntaf o gymwysterau i'w 'dadariannu' yn Lloegr fis diwethaf gan Lywodraeth y DU. Mae 43 o gymwysterau ar y rhestr honno sy'n gymwys i dderbyn arian cyhoeddus yng Nghymru, ond dim ond 29 o'r rhain sydd wedi'u dyfarnu yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rydym ni wedi cynnal dadansoddiad o statws y cymwysterau hyn (Atodiad 1) a **heb nodi unrhyw risg sylweddol i'r cynnig yng Nghymru**. Mae ein trafodaethau gyda chyrff dyfarnu sy'n weithgar yng Nghymru wedi bod yn hynod gadarnhaol a chalonogol. Er enghraifft, mae City & Guilds eisoes yn gweithio gyda chanolfannau i ddiffinio cymhwyster Lefel 3 ar gyfer Amaethyddiaeth yn y dyfodol. Mae Pearson wedi rhoi datganiad i ni ar eu bwriad ar gyfer cymwysterau yng Nghymru yn y dyfodol ac wedi eich gwahodd i fynychu sesiwn friffio amser cinio ar 29 Mehefin i amlinellu'r bwriadau hynny – ceisiwch fynychu os gallwch chi.

Datganiad gan Pearson

Mae Pearson yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnig Cymwysterau Cenedlaethol BTEC Lefel 3 yng Nghymru. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym ni wedi dechrau ar raglen gyfieithu helaeth, gan sicrhau wrth i ni adolygu ac ailddatblygu cymwysterau, eu bod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ddiweddar, mae Pearson wedi adolygu ac ymestyn ein cynnig yng Nghymru tan fis Awst 2026. Mae hyn yn golygu y gall canolfannau addysgu'n hyderus ar gyfer blynyddoedd academaidd 2022, 2023, 2024 a 2025.

Cyflwynwyd ein Cymwysterau Cenedlaethol BTEC Lefel 3 RQF o 2016, sy'n golygu y bydd y cymwysterau'n dechrau ar gyfnod o ddiwygio ac adolygu yn 2026, sy'n rhan o'n cylch oes cymhwyster rheolaidd i sicrhau bod cymwysterau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben, a'u bod yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i'w cam nesaf mewn addysg uwch neu gyflogaeth. Mae Pearson bob amser yn datblygu ac yn adolygu cymwysterau gydag athrawon a dysgwyr, ac rydym ni'n annog eich staff i ychwanegu eu llais drwy gofrestru eu diddordeb mewn ymuno â'n cymuned ymchwil.

Mae Pearson yn cynnal sesiwn friffio Lefel 3 ar gyfer uwch arweinwyr mewn Colegau ac Ysgolion yng Nghymru ar 29 Mehefin, 12:30 PM-1:30 PM. Cofrestrwch yma i ymuno â'r digwyddiad.

Adolygiad Sector Cam 2

Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi ein Hadolygiad a fu'n edrych ar argaeledd cymwysterau yn y sector Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid. Mae ein Hadolygiad Sector ar gyfer **Busnes, Gweinyddiaeth a Manwerthu (gan gynnwys y Gyfraith a Chyfrifyddiaeth)** ar fin dechrau. Os nad ydych chi wedi gwneud hynny'n barod, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni gyda phwy yn y Coleg y gallwn ni drafod y cymwysterau hyn gyda nhw.

Ymgysylltu yn y dyfodol – Grwpiau Sector

Yn ymwybodol bod cymaint yn digwydd ym myd cymwysterau galwedigaethol, rydym ni wedi bod yn ystyried sut rydym ni'n ymgysylltu â chi. Er bod ein hadolygiadau sector wedi bod yn hynod ddefnyddiol wrth edrych yn fanwl ar sector penodol, rydym ni'n cydnabod bod angen parhaus hefyd i fod yn ymwybodol o'r ystod bresennol o gymwysterau a chymwysterau'r dyfodol, a chael golwg gynnar ar unrhyw bryderon a all godi.

I'r perwyl hwn, byddwn yn sefydlu **grwpiau sector** i gwmpasu pob un o'r prif sectorau galwedigaethol lle mae Colegau AB a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yn weithredol.

Rydym ni'n cynnig y bydd y grwpiau hyn yn cynnwys **arweinwyr pwnc o bob darparwr, ynghyd â chynrychiolydd Cwricwlwm ac Ansawdd enwebedig** ac y byddan nhw'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn – ar-lein yn ôl pob tebyg. Byddwn yn gwahodd cyrff dyfarnu sy'n weithredol yn y maes i gyflwyno ar eu cynnig, a byddwn yn gwahodd aelodau i dynnu sylw at unrhyw fylchau gwirioneddol neu bosibl yn y cynnig, darparu astudiaethau achos o arfer da neu arloesol wrth gyflwyno'r cymwysterau, a thrafod unrhyw faterion eraill o bryder. Byddwn ni'n cysylltu o fewn yr wythnosau nesaf i ofyn am enwebiadau ar gyfer aelodaeth o'r grwpiau hyn.

Rwy'n sylweddoli bod hwn wedi datblygu'n llythyr eithaf hir, ond rwy'n gobeithio ei fod wedi bod yn ddefnyddiol. Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi unwaith eto am yr holl adborth rydych chi wedi'i roi i ni a'r ddeialog a'r gefnogaeth barhaus sydd gennych gyda ni wrth i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru yn hylaw ar gyfer canolfannau, eu bod yn ddiddorol i ddysgwyr, yn ddibynadwy ac yn ddilys.

Gan estyn fy nymuniadau gorau



Cassy Taylor

Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau

Atodiad 1: Rhestr dros dro o gymwysterau sy'n gorgyffwrdd â thonnau 1 a 2 o lefelau T

Mae'r ddogfen hon yn rhestru'r cymwysterau sydd wedi'u cynnwys ar restr Adran Addysg Llywodraeth y DU o gymwysterau lefel 3 sy'n gorgyffwrdd â thonnau 1 a 2 o Lefelau T ac a gaiff eu dadariannu yn Lloegr o fis Awst 2024.

Mae proses apelio ar gyfer cyrff dyfarnu os oes unrhyw gymwysterau nad ydynt, yn eu barn nhw, yn gorgyffwrdd â Lefelau T cyn i'r rhestr derfynol gael ei chyhoeddi ym mis Medi 2022.

Mae 43 o gymwysterau lefel 3 ar y rhestr sy'n gymwys i dderbyn arian cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynrychioli llai na 5% o'r cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael ar y lefel hon yng Nghymru.

Nid yw 14 o'r cymwysterau hyn wedi'u dyfarnu am y ddwy flynedd neu fwy diwethaf a bydd 4 cymhwyster adeiladu yn dod i ben yn haf 2022 mewn ymateb i ddiwygio cymwysterau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Mae cyfanswm nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer y cymwysterau ar y rhestr hon (1,180) yn cyfrif am lai na 2% o'r holl dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol (66,445) a ddyfarnwyd yng Nghymru yn 2021.

Mae'r cymwysterau ar y rhestr hon yn cael eu gwahanu fesul sector a gwelir y dyddiadau dechrau terfynol nodweddiadol (y dyddiad arferol y gall dysgwr gofrestru i ddechrau'r cymhwyster). Rydym hefyd yn amlinellu'r camau rydym wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i sicrhau bod y cymwysterau yr effeithir arnynt ar gael.

MPS 1: Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal

QUAN /QiW	Teitl y Cymhwyster	Dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol	Tystysgrifau a ddyfarnwyd 19/20 20/21	Camau a Gymerwyd
603/7221/7 C00/4351/6	City & Guilds Diploma Lefel 3 mewn Nyrsio Deintyddol	31/07/2025	Dim data gan mai dyddiad dechrau cymhwyso oedd 01/04/2021	Nid oes angen gweithredu ar hyn o bryd gan mai'r dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 2025 ac mae cymhwyster newydd, amgen ar gael (a gynigir gan Agored Cymru) sydd â dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol o fis Rhagfyr 2026.

MPS 4: Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu

QUAN /QiW	Teitl y Cymhwyster	Dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol	Tystysgrifau a ddyfarnwyd 19/20	20/21	Camau a Gymerwyd
601/5802/5 C00/0717/9	EAL Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Technolegau Peirianneg	31/12/2023	80	100	Rydym wedi cyfarfod yn rheolaidd ag EAL i drafod pa effaith y gallai'r newidiadau yn Lloegr ei chael ar eu gweithrediadau yng Nghymru ac rydym wedi cael ein calonogi gan eu

603/0564/2 C00/1171/3	EAL Diploma Technegol Estynedig Lefel 3 mewn Technolegau Peirianneg	31/12/2023	0	0	hymrwymiad i barhau i gynnig cymwysterau yng Nghymru. Mae EAL wedi nodi y byddant yn dod â'u hadolygiad o'r cymwysterau hyn ymlaen i 2022 cyn ymestyn dyddiadau dechrau terfynol nodweddiadol y cymwysterau hyn. Mae cymwysterau eraill hefyd ar gael.
601/7591/6 C00/0775/6	Pearson BTEC Lefel 3 Diploma Sylfaen Cenedlaethol mewn Peirianneg	31/08/2026	0	110	Mae 11 o'r 12 cymhwyster BTEC wedi'u hymestyn i fis Awst 2026. Un cymhwyster (601/7588/6) sydd heb ei ymestyn eto. Rydym wedi cyfarfod yn rheolaidd â Pearson, ac maent wedi nodi mai amryfusedd oedd hepgor y cymhwyster hwn o'r rhestr estyniadau, a'u bod yn bwriadu ymestyn y dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol i 2026. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Pearson i drafod yr opsiynau ar gyfer 2026 a thu hwnt a allai gynnwys ymestyn dyddiadau gorffen cymwysterau, addasu cymwysterau i ddiwallu anghenion Cymru, mabwysiadu cymwysterau a ddefnyddir
601/7580/1 C00/0783/2	Pearson BTEC Lefel 3 Diploma Cenedlaethol mewn Peirianneg	31/08/2026	5	0	
601/7588/6 C00/0783/7	Pearson BTEC Lefel 3 Diploma Estynedig Cenedlaethol mewn Peirianneg	31/08/2026	0	0	
601/7582/5 C00/0783/3	Pearson BTEC Lefel 3 Diploma Cenedlaethol mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu	31/08/2026	0	15	
601/7589/8 C00/0783/8	Pearson BTEC Diploma Estynedig Cenedlaethol Lefel 3 mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu	31/08/2026	0	0	
601/7583/7 C00/0783/4	Pearson BTEC Diploma Cenedlaethol Lefel 3 mewn Peirianneg Fecanyddol	31/08/2026	0	0	
601/7590/4 C00/0783/9	Pearson BTEC Diploma Estynedig Cenedlaethol Lefel 3 mewn Peirianneg Fecanyddol	31/08/2026	0	0	
603/5840/3 C00/4095/2	Pearson BTEC Dyfarniad Sylfaen Lefel 3 mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch (Datblygu Gwybodaeth Dechnegol)	31/08/2026	0	5	

601/9053/X C00/2955/5	Pearson BTEC Dyfarniad Lefel 3 mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch (Datblygu Gwybodaeth Dechnegol)	31/08/2026	0	65	mewn mannau eraill, neu ddatblygu cymwysterau newydd i Gymru.
601/9049/8 C00/2955/3	Pearson BTEC Tystysgrif Lefel 3 mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch (Datblygu Gwybodaeth Dechnegol)	31/08/2026	0	50	
601/9054/1 C00/2955/6	Pearson BTEC Diploma Lefel 3 mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch (Datblygu Gwybodaeth Dechnegol)	31/08/2026	0	0	
601/9060/7 C00/2955/8	Pearson BTEC Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch (Datblygu Gwybodaeth Dechnegol)	31/08/2026	0	0	

MPS 5: Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig

QUAN /QiW	Teitl y Cymhwyster	Dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol	Tystysgrifau a ddyfarnwyd 19/20	20/21	Camau a Gymerwyd
603/1217/8 C00/1185/0	Pearson BTEC Diploma Cenedlaethol Lefel 3 mewn Peirianneg Sifil	31/08/2026	5	20	Mae Pearson wedi ymestyn y dyddiadau dechrau terfynol nodweddiadol ar gyfer y cymwysterau hyn tan 2026. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Pearson i drafod yr opsiynau ar gyfer 2026 a thu hwnt a allai gynnwys
603/1216/6 C00/1184/9	Pearson BTEC Diploma Estynedig Cenedlaethol Lefel 3 mewn Peirianneg Sifil	31/08/2026	0	0	
603/0862/X C00/1228/7	Pearson BTEC Tystysgrif Estynedig Genedlaethol Lefel 3 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	31/08/2026	30	50	

603/0864/3 C00/1228/8	Pearson BTEC Diploma Cenedlaethol Lefel 3 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	31/08/2026	20	45	ymestyn dyddiadau terfyn cymwysterau, addasu cymwysterau i ddiwallu anghenion Cymru, mabwysiadu cymwysterau a ddefnyddir mewn mannau eraill, neu ddatblygu cymwysterau newydd i Gymru.
603/0861/8 C00/1228/5	Pearson BTEC Diploma Estynedig Cenedlaethol Lefel 3 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	31/08/2026	5	30	
603/1218/X C00/1182/6	Pearson BTEC Diploma Cenedlaethol Lefel 3 mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu	31/08/2026	0	0	
603/1219/1 C00/1182/5	Pearson BTEC Diploma Estynedig Cenedlaethol Lefel 3 mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu	31/08/2026	0	0	
601/2500/7 C00/0619/1	Pearson NVQ Diploma Lefel 3 mewn Gweithrediadau Contractio	31/12/2023	10	30	Rydym wedi cyfarfod â Pearson, ac maent wedi nodi eu bod yn bwriadu ymestyn y dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol ar gyfer y cymhwyster hwn.
601/7236/8 C00/0739/2	City & Guilds Diploma Technegol Uwch Lefel 3 mewn Gosod Brics (450)	30/06/2022	0	0	Mae City & Guilds wedi penderfynu tynnu'r cymwysterau hyn yn ôl yng Nghymru gan na fu unrhyw ddefnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd y cymwysterau adeiladu newydd yn cwmpasu'r pynciau hyn. Nid yw'r penderfyniad hwn wedi'i wneud o ganlyniad i'r newidiadau i'r polisi cymwysterau yn Lloegr.
601/7417/1 C00/0740/9	City & Guilds Diploma Technegol Uwch Lefel 3 mewn Plastro (450)	31/08/2022	0	0	
601/7418/3 C00/0740/6	City & Guilds Diploma Technegol Uwch Lefel 3 mewn Gwaith Coed Safle (450)	31/08/2022	0	0	
601/7419/5 C00/0740/7	City & Guilds Diploma Technegol Uwch Lefel 3 mewn Gwaith Saer Pensaernïol (450)	31/08/2022	0	0	

MPS 6: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

QUAN /QiW	Teitl y Cymhwyster	Dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol	Tystysgrifau a ddyfarnwyd 19/20	20/21	Camau a Gymerwyd
500/9150/5 C00/0252/8	Pearson BTEC Diploma Lefel 3 mewn TG (FfCC)	31/08/2023	25	20	Dyma'r hen gymwysterau FfCC, ac rydym wedi cyfarfod yn rheolaidd â Pearson sydd wedi dweud wrthym fod y cymwysterau hyn wedi'u disodli'n uniongyrchol gan y cymwysterau BTEC Lefel 3 newydd mewn TG sy'n fwy cyfredol a phriodol i ddysgwyr yng Nghymru.
500/9149/9 C00/0252/9	Pearson BTEC Diploma Estynedig Lefel 3 mewn TG (FfCC)	31/08/2023	270	160	
501/1436/0 C00/0259/2	Pearson BTEC Tystysgrif Lefel 3 mewn Systemau ac Egwyddorion TGCh	31/12/2024	55	40	Mae Pearson wedi ymestyn y cymwysterau hyn tan 2024 a phan wnaethom gyfarfod â nhw, dywedon nhw wrthym ni y bydd cymwysterau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar fframweithiau prentisiaeth yn parhau i gael eu cynnig yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i sicrhau bod y cymwysterau hyn, neu ddewisiadau amgen addas, yn parhau i fod ar gael yng Nghymru.
501/1435/9 C00/0259/3	Pearson BTEC Diploma Lefel 3 mewn Systemau ac Egwyddorion TGCh	31/12/2024	<4	10	
501/1291/0 C00/0263/3	Pearson BTEC Diploma Lefel 3 mewn Cymhwysedd Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr TG a Thelathrebu	31/12/2024	60	50	
500/3476/5 C00/0106/4	City & Guilds Tystysgrif Lefel 3 mewn Systemau ac Egwyddorion TGCh	31/08/2026	5	25	

501/0277/1 C00/0221/7	City & Guilds Diploma Lefel 3 mewn Systemau ac Egwyddorion TGCh ar gyfer Gweithwyr TG Proffesiynol	31/08/2026	5	5	Mae City & Guilds wedi ymestyn y rhan fwyaf o gymwysterau Lefel 3 hyd at 2026. Mae cymwysterau amgen ar gael hefyd, ac mae'r fframwaith prentisiaeth yn dod o dan y cymwysterau Pearson a restrir uchod.
501/1585/6 C00/0286/4	City & Guilds Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Systemau TGCh	31/12/2023	5	10	
501/1788/9 C00/0295/8	City & Guilds Diploma Lefel 3 mewn Cymhwysedd Proffesiynol TGCh	31/12/2023	10	30	
500/6688/2 C00/0106/8	City & Guilds Diploma Lefel 3 ar gyfer Defnyddwyr TG (ITQ)	31/12/2023	25	25	
601/7099/2 C00/0787/2	OCR Diploma Rhagarweiniol Technegol Caergrawnt Lefel 3 mewn TG	31/12/2023	10	10	Rydym wedi cyfarfod ag OCR a byddant yn rhoi cyngor ar ddewisiadau eraill i'r cymhwyster hwn. Ar hyn o bryd mae gan OCR Ddiploma Rhagarweiniol Technegol Caergrawnt Lefel 3 mewn TG (FfCC) newydd wedi'i ddynodi yng Nghymru. Cynigir cymwysterau amgen hefyd gan gyrff dyfarnu eraill.

MPS 13: Addysg a hyfforddiant

QUAN /QiW	Teitl y Cymhwyster	Dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol	Tystysgrifau a ddyfarnwyd 19/20	20/21	Camau a Gymerwyd
501/1394/X C00/0288/5	City & Guilds Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Arbenigol ar gyfer Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	31/08/2022	110	105	Rydym wedi gofyn i City & Guilds ymestyn dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol y cymhwyster hwn ac maent wedi dechrau'r broses hon. Maent ar hyn o bryd yn casglu llythyrau o gefnogaeth gan ganolfannau er mwyn ymestyn y cymhwyster hwn. Disgwyliwn i'r cymhwyster hwn gael ei ymestyn dros yr haf.
501/1208/9 C00/0355/3	Pearson Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Arbenigol ar gyfer Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	31/12/2023	80	75	Rydym wedi cyfarfod â Pearson, ac maent wedi nodi y byddant yn ymestyn dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol y cymhwyster hwn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Pearson i drafod yr opsiynau ar gyfer 2026 a thu hwnt a allai gynnwys ymestyn dyddiadau terfyn cymwysterau, addasu cymwysterau i ddiwallu anghenion Cymru, mabwysiadu cymwysterau a ddefnyddir mewn mannau eraill, neu ddatblygu cymwysterau newydd i Gymru.

603/2495/8 C00/1215/5	NCFE CACHE Dyfarniad Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu	31/12/2022	<4	30	Rydym wedi cyfarfod ag NCFE, ac maent wedi nodi y byddant yn ymestyn dyddiad dechrau terfynol nodweddiadol y cymwysterau hyn. Ar hyn o bryd mae NCFE yn casglu llythyrau cymorth o ganolfannau a byddant yn ymestyn ym mis Gorffennaf 2022.
603/2498/3 C00/1215/6	NCFE CACHE Tystysgrif Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu	31/12/2022	75	60	
603/2496/X C00/1215/7	NCFE CACHE Diploma Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu	31/12/2022	15	5	